# Monmouthshire Select Committee Minutes

**Pwyllgor Craffu Lle**
**Neuadd y Sir Brynbuga NP15 1GA Dydd**
**Mawrth, 3ydd Medi, 2024, 2.00 pm**

| **Cynghorwyr yn Bresennol** | **Swyddogion yn Bresennol** |
|---|---|
| Cynghorydd Sir Jane Lucas (Cadeirydd)<br><br>Cadeirydd: Louise Brown, Emma Bryn, Tomos Davies, Phil Murphy, Jackie Strong, Laura Wright, Tudor Thomas, John Crook | Robert McGowan, Swyddog Polisi a Chraffu<br>Amy Longford, Rheolwr Treftadaeth<br>Ian Bakewell, Rheolwr Tai ac Adfywio<br>Victoria Cornock, Heritage Officer |

**Ymddiheuriadau:** Dim

1. **Datganiadau o Fuddiant**

   Dim.

2. **Fforwm Agored i'r Cyhoedd**

   Dim.

3. **Adeiladau Mewn Perygl**

   Cyflwynodd Amy Longford gyflwyniad, ac atebodd gwestiynau'r aelodau:
   **Pwyntiau allweddol gan Aelodau:**

   - Egluro pryniant gorfodol mewn perthynas â Hysbysiad Atgyweiriadau, ac unrhyw opsiynau eraill
   - Gofyn a ellir cyfyngu mynediad ar gyfer cerbydau ag ochrau uchel i gyfyngu ar fwy o ddifrod i Siop Lyfrau'r Fenni, yn enwedig gan nodi ei agosrwydd at Neuadd y Dref
   - Egluro'r gwahaniaeth rhwng risgiau difrifol ac eithafol, mynegi pryder bod tirfeddianwyr cyfoethog yn cael cymhorthdal gan arian cyhoeddus, a gofyn a ellir rhestru hynny fel 'risg' yn yr Asesiad Effaith Integredig
   - Gofyn pa mor hir y mae hysbysiad Adran 215 yn ei gymryd ac a yw'n cael ei apelio fel arfer, a pha mor hir y mae hynny'n ei gymryd
   - Egluro pwy sy'n gwneud y penderfyniad terfynol mewn achosion, pa mor hir mae'n ei gymryd i gael caniatâd adeilad rhestredig, a statws Piercefield a'r heriau cysylltiedig
   - Holi a ellir adennill costau drwy godi tâl ar berchnogaeth eiddo, pa ffurf erlyn sy'n ei gymryd yn achos rhybudd o 215, a gofyn beth yw'r opsiynau ar gyfer prynu adeiladau a allai fod yn asedau cymunedol e.e. tafarndai adfeiliedig
   - Gofyn pwy fyddai'n atebol pe bai aelod o'r cyhoedd yn cael ei anafu gan waith maen yn cwympo, e.e. yn achos Siop Lyfrau'r Fenni, ac a yw hynny wedi'i drafod â'r perchennog
   - Gofyn beth y gellir ei wneud am adeiladau y tu allan i'r 10 uchaf sy'n dal i fod yn bwysig, fel Court Farm House yn Rhosied a Gwesty Rhosied (yn enwedig o ystyried gwelededd yr olaf i'r rhai sy'n defnyddio Cyffordd Twnnel Hafren a'i fudd economaidd posibl)

- Egluro a ellir defnyddio Hysbysiad Atgyweirio a phrynu gorfodol ar adeiladau nad ydynt yn hanesyddol, neu beth yw'r opsiynau eraill
- Gofyn os oedd pryniant gorfodol yn digwydd nawr, o ble fyddai'r cyllid yn dod, ac a yw unrhyw un o'r 10 uchaf yn agos at gael eu trin a dod oddi ar y rhestr – ac os ydynt, pa mor gyflym y byddant yn cael eu disodli gan adeiladau eraill
- Gofyn sut mae iechyd a diogelwch cerddwyr yn Nhrefynwy yn cael sylw, ac os yw'r perchnogion yn hapus gyda phopeth sydd angen iddynt ei wneud i wneud yr adeiladau'n ddiogel – neu a yw hynny'n gyfrifoldeb yr awdurdod
- Gofyn bod y pwyllgor yn derbyn diweddariadau rheolaidd am gynnydd a pha adeiladau eraill sy'n cael eu hychwanegu at y 10 uchaf

**Crynodeb y Cadeirydd:**
Diolch i'r swyddogion am yr adroddiad. Cytunodd y pwyllgor ar yr argymhelliad ac mae'n edrych ymlaen at dderbyn diweddariadau pellach ar gynnydd y tîm.

4. **Cyfarfod Nesaf: 10fed Hydref 2024 am 2.00pm.**